TAFLEN GWYBODAETH

Tâl Gwasanaeth Addasiadau

Beth yw Tâl Gwasanaeth Addasiadau ac am beth mae'n ei dalu?

Tâl Gwasanaeth yw swm sy'n cael ei godi gan Cartrefi Cymunedol Gwynedd (CCG) ar gyfer y gost o ddarparu gwasanaethau penodol i denantiaid. Un gwasanaeth lle byddwn yn adennill costau drwy Tâl Gwasanaeth yw gwasanaethu a chynnal a chadw offer arbennig/ addasiadau.

Bydd y Tâl Gwasanaeth addasiadau yn talu i'r offer gael eu gwasanaethu a'u cynnal a chadw yn flynyddol i sicrhau ei fod yn parhau i weithio'n iawn.

Oes rhaid i mi dalu Tâl Gwasanaeth am BOB offer addasu?

Na, ni fydd rhaid i chi dalu am bob offer addasiadau. Bydd ond disgwyl i chi dalu am wasanaeth os oes gennych addasiad sy'n gofyn am gael ei wasanaethu a'i gynnal a'i gadw yn flynyddol e.e.

- Lifft grisiau
- Lifft drwy'r llawr
- Trac nenfwd ar gyfer codi

Pryd fydd disgwyl i mi dalu?

Bydd gwarant ar y rhanfwyaf o offer newydd e.e. am 12 mis. Ni fydd rhaid i chi dalu'r Tâl Gwasanaeth yn ystod y cyfnod warant. Bydd y taliad Tâl Gwasanaeth cyntaf yn daladwy pan fydd cyfnod y warant yn dod i ben (bydd hyn yn cael ei egluro yn fanylach i chi os bydd eich cais am addasiad mawr/offer arbenigol yn llwyddiannus).

Os ydych yn denant newydd, yn symud i eiddo sydd wedi ei addasu yn barod, bydd disgwyl i chi wneud y taliad cyntaf yr un pryd a'ch taliad rhent cyntaf (bydd hyn yn cael ei egluro yn fanylach i chi pan fyddwch yn arwyddo'r Cytundeb Tenantiaeth).

Bydd angen i bob tenant lle mae disgwyl iddynt dalu Tâl Gwasanaeth am eu haddasiad gwblhau ac arwyddo 'Ffurflen Tâl Gwasanaeth Addasiadau'. Bydd y ffurflen yn rhestru'r addasiad sydd wedi ei osod yn yr eiddo, y swm wythnosol sy'n daladwy ar gyfer pob eitem a'r cyfanswm blynyddol. Drwy arwyddo'r ffurflen, rydych yn cadarnhau eich bod yn deall eich goblygiadau mewn perthynas â Thâl Gwasanaeth.

A fydd y swm wythnosol yn swm sefydlog?

Na. Gall y swm y byddwch yn ei dalu drwy Tâl Gwasanaeth gynyddu neu leihau yn unol â chost o ddarparu'r gwasanaeth h.y. os yw'r darparwr gwasanaeth yn cynyddu'r gost o wasanaethu'r offer, bydd eich Tâl Gwasanaeth yn codi.

Bydd CCG yn rhoi un mis o rybudd i chi cyn cynyddu'r Tâl Gwasanaeth. Caiff y rhybudd fel arfer ei yrru ym mis Mawrth gyda'r gost newydd yn daladwy ar y dydd Llun cyntaf ym mis Ebrill.

Sut gallaf dalu y Tâl Gwasanaeth?

Gallwch un ai dalu'r Tâl Gwasanaeth yn fisol neu dros 52 taliad wythnosol. Mae yna nifer o wahanol ffyrdd y gallwch dalu ond y ffordd fwyaf hwylus o dalu byddai Debyd Uniongyrchol. Gall y Tîm Rhent ac Incwm osod y dyddiad talu a pha mor aml yr ydych yn dymuno talu. Cysylltwch gyda ni ar 0300 123 8084 i drafod dulliau talu.

Am fwy o wybodaeth:

Cysylltwch gyda ni ar **0300 123 8084**, ymholiadau@ccgwynedd.org.uk neu drwy ein gwefan www.ccgwynedd.org

Os hoffech gael y daflen hon mewn fformat gwahanol, fel llythrennau bras neu mewn iaith arall, cysylltwch â ni ar 0300 123 8084.

CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD

FACT SHEET

Adaptations Service Charge

What is an Adaptations Service Charge and what does it pay for?

A Service Charge is an amount charged by Cartrefi Cymunedol Gwynedd (CCG) to cover the costs incurred in providing certain services to tenants. One service for which we will recover costs through a service charge is the annual servicing and maintenance of specialist/adaptation equipment.

The adaptation Service Charge will pay for the annual servicing and maintenance required of the adaptation to ensure that it is kept in good working order.

Do I have to pay a Service Charge for ALL of the different adaptation equipment?

No, you will not have to pay a Service Charge for all adaptation equipment. You would only be expected to pay a Service Charge, if you have an adaptation that requires annual servicing and maintenance e.g.

- Stairlift
- Though floor lift
- Ceiling track hoist

When will I be expected to pay?

Most newly installed specialist equipment will be covered by a warranty e.g. for 12 months. You will not have to pay the Service Charges during the warranty period. The first Service Charge payment will be due upon expiry of the warranty period (this will be explained in more detail to you if your request for a major adaptation/specialist equipment is successful).

If you are a new tenant, moving into an existing adapted property, you will be expected to make the first payment in line with your first weeks rent (this will be explained in more detail to you during the signing of the Tenancy Agreement).

All tenants who will be expected to pay a Service Charge for their adaptation will need to complete and sign the 'Adaptations Service Charge Form'. This form will list the adaptation installed at the property, the weekly amount payable in respect of each item and the annual total. By signing the form, you confirm that you understand your obligations in respect of Services Charges.

Will the weekly amount I pay be fixed?

No. The weekly amount you pay by way of Service Charge may increase or decrease in line with the cost of providing the service e.g. if the service provider increases the cost of servicing the equipment, your Service Charge will increase.

CCG will give you one month's notice in writing before increasing your service charge. The written notice is usually sent out in March with the new costs payable from the 1st Monday in April.

How can I pay my Service Charge?

You can pay the Service Charge either monthly or in 52 equal weekly instalments. There are many different payment options available to you, however the most convenient method of payment would be via Direct Debit. The Rent & Income team will be able to set the payment date and frequency as you wish. In order to discuss other methods of payment in more detail, please do not hesitate to contact us on 0300 123 8084.

For more information

Contact us on **0300 123 8084**, enquiries@ccgwynedd.org.uk or on our website www.ccgwynedd.org

If you would like to receive this leaflet in a different format, such as braille, large text or in another language, contact us on 0300 123 8084.

CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD